Adroddiad ansawdd

# Adroddiad ansawdd ar gyfer gwybodaeth gyd-destunol yn Adroddiad Llesiant Cymru

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni at ffynonellau lle mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ansawdd data dangosydd nad ydynt yn genedlaethol a ddefnyddiwyd yn yr adroddiadau cynnydd ar gyfer y 7 nod llesiant yn adroddiad Llesiant Cymru. Mae'r dolenni'n cynnwys manylion fel cwmpas, a chryfder a chyfyngiadau'r data, a hefyd y prosesau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu a chyhoeddi'r setiau data sydd wrth wraidd yr ystadegau a ddyfynnir yn yr adroddiad cynnydd.

Er bod y rhan fwyaf o'r naratif yn adroddiad Llesiant Cymru yn deillio o ddangosyddion cenedlaethol, daw peth o'r data cyd-destunol o ystadegau swyddogol eraill neu ystadegau eraill a datganiadau ffeithiol sy'n gysylltiedig â pholisïau neu raglenni penodol, lle barnwyd fod hynny'n berthnasol i'r naratif cyffredinol.

Mae'r data nad yw wedi'u gasglu trwy ffynonellau ystadegau swyddogol wedi'u defnyddio yn adroddiad Llesiant Cymru i roi cyd-destun, ond ni allwn roi sicrwydd bob amser ynglŷn ag ansawdd y data. Gan fod y data yn yr adroddiad cynnydd wedi dod o amrywiaeth o setiau data bydd lefel ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael yn amrywio ym mhob achos. Lle mae'r ffynonellau data gwreiddiol wedi nodi adroddiadau ansawdd, rydym wedi rhoi dolenni at yr adroddiadau hyn. Lle nad oes adroddiadau ansawdd i'w cael ar gyfer ffynhonnell, mae gwybodaeth ychwanegol, lle bo ar gael, wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon.

Mae'r "Adroddiad ansawdd ar gyfer y Dangosyddion Cenedlaethol", sydd ar gael ar dudalennau gwefan Llesiant Cymru, yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd y data a ddefnyddir ar gyfer y dangosyddion. Felly, nid yw ffynonellau'r data hynny wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

### Access to Higher Education in Wales, Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru

Gweler yr adran "Data and Methodology" yn yr adroddiad Access to Higher Education in Wales am ragor o wybodaeth.

### Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod, Iechyd Cyhoeddus Cymru

*Adroddiad Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod 1*

Mae'r adroddiad yn defnyddio Astudiaeth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod Cymru, sy'n cynnwys mwy o wybodaeth am y fethodoleg yn Atodiad 1: Methodoleg. Nid yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

*Adroddiad Gwydnwch Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod 1*

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth o Ffynonellau gwydnwch a'u cysylltiadau lliniarol gyda'r niwed sy'n cael ei achosi gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sy'n cynnwys mwy o wybodaeth am y fethodoleg yn Atodiad 1: Methodoleg.

### Arolwg Celfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru

Gweler yr adran "Methodoleg ymchwil" yn Arolwg Celfyddydau Cymru 2015: Adroddiad Ymchwil am ragor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg.

### Ansawdd dŵr ymdrochi a thraethau yng Nghymru

Gweler y ddolen sy'n cynnwys cyfeiriadau at safonau dŵr ymdrochi. Mae'r Adroddiadau Dŵr Ymdrochi gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr ansawdd y data a'r fethodoleg. Maent i'w gweld ar dudalennau ansawdd dŵr ymdrochi Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw'r data hwn yn cael ei gyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

### Data Ategol Bod yn anabl ym Mhrydain, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae'r ffigurau ar gyfer y bwlch cyflog yn defnyddio'r Arolwg o'r Llafurlu, sy'n sail i rai Dangosyddion Cenedlaethol.

### Arolwg Adar Prydain

Gweler methodoleg Arolwg Adar Prydain a'r dudalen ar y wefan ar gynllunio'r arolwg am wybodaeth am sut y mae Arolwg Adar Prydain yn cael ei gynnal. Mae yna adran hefyd ar gefndir a dulliau yn adroddiad Arolwg Adar Prydain. Nid yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

### Goroesi Canser

*Goroesi Canser yn ôl Cam Adeg Diagnosis yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru*

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi adroddiad Sicrwydd Ansawdd a Gwybodaeth Ategol gyda rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

*Goroesi Canser yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru*

Gweler y dudalen Sicrwydd Ansawdd am ragor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

*Survival of Cancer Patients in Europe The EUROCARE-5 Study, Instituto Superiore di Sanità*

Gweler Dogfennaeth ar ddata a dulliau yr astudiaeth am ragor o wybodaeth am ddyluniad yr astudiaeth a chasglu data.

### Changing trends in mortality, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gweler Health state life expectancies, UK QMI am ragor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

*Changing trends in mortality in England and Wales: 1990 to 2017 (Experimental Statistics)*

Mae'r rhain yn ystadegau arbrofol. Gweler yr adran "Quality and methodology" yn yr adroddiad am ragor o wybodaeth.

*Changing trends in mortality: a cross-UK comparison*

Gweler yr adran "Quality and methodology" yn yr adroddiad am ragor o wybodaeth.

*Changing trends in mortality: an international comparison*

Gweler yr adran "Quality and methodology" yn yr adroddiad am ragor o wybodaeth.

### Arolwg Omnibws y Plant, Cyngor Celfyddydau Cymru

Gweler adran "Methodoleg" Arolwg Omnibws y Plant 2017 am ragor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg. Mae'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

Yn dilyn diweddariad i'r wefan, cysylltwch â Chyngor Celfyddydau Cymru am gopi o'r arolwg.

### Rhaglen Mesur Plant Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae data Rhaglen Mesur Plant Cymru yn cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Swyddogol. Gweler y datganiad Ansawdd Data am ragor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

### Cyfraddau beichiogi yng Nghymru a Lloegr, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gweler Conception Statistics QMI am ragor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg. Mae'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Gwladol.

### Troseddau yng Nghymru a Lloegr

Nid yw ystadegau sy'n seiliedig ar droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu'n cydymffurfio â'r diffiniad o Ystadegau Gwladol. Mae adroddiad asesu llawn ar gael ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU.

Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cynhyrchu fframwaith ansawdd data i helpu defnyddwyr i ddeall ansawdd ystadegau troseddau ar gyfer gwahanol fathau o droseddau. Mae hwn i’w weld ym Mhennod 5 o’r Canllaw Defnyddwyr.

Gweler Crime in England and Wales QMI am ragor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

*Child module, Crime Survey for England and Wales, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Mae gan y Canllaw Defnyddwyr wybodaeth sy’n benodol i blant 10-15 oed. Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol adroddiad ar Extending the British Crime Survey to children sy’n cynnwys y gwaith gwreiddiol ar ddatblygiad a methodoleg yr arolwg i blant.

*Crime in England and Wales: Annual Trend and Demographic Tables, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Mae’r tablau hyn yn rhan o “Crime in England and Wales: year ending March 2018”. Mae’r Canllaw Defnyddwyr ar gyfer ystadegau troseddau yn cynnwys rhagor o wybodaeth am gyd-destun yr ystadegau hyn.

*Fear of Crime, Y Swyddfa Gartref*

Gweler yr adrannau “Things you need to know” a “Methodology” ar y dudalen gysylltiedig am wybodaeth sy’n gysylltiedig ag ansawdd data.

*Focus on Violent Crime and Sexual Offences, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Gweler y bennod “Data Sources: Further Information” o’r compendiwm Focus on Violent Crime and Sexual Offences am ragor o wybodaeth.

*Perceptions Other data tables, Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yw’r rhain, ac ymdrinnir â hwy ym mhennod 2 o Ganllaw Defnyddwyr yr Ystadegau Troseddu. Mae’r ffeil ZIP i’w lawrlwytho ar gyfer y tablau Perceptions Other yn cynnwys dogfen gyfarwyddiadau Tabl Agored CSEW gyda rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau.

*Personal Crime Incidence, Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yw’r rhain, ac ymdrinnir â hwy ym mhennod 2 o Ganllaw Defnyddwyr yr Ystadegau Troseddu. Mae’r ffeil ZIP i’w lawrlwytho ar gyfer y tablau Personal Crime Incidence yn cynnwys dogfen gyfarwyddiadau Tabl Agored CSEW gyda rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau.

*Police Recorded Crime, Tablau Data Agored ar gyfer Troseddau Casineb, Y Swyddfa Gartref*

*Gweler Canllaw Defnyddwyr Tablau Data Agored Police Recorded Crime and Outcomes.*

*Police recorded crime, tablau data ardaloedd heddlu, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Defnyddir y data hyn fel rhan o "Crime in England and Wales: year ending March 2018". Mae'r Canllaw Defnyddwyr Ystadegau Troseddu'n cynnwys rhagor o wybodaeth am gyd-destun yr ystadegau hyn .

*Sexual Offences in England and Wales, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Mae'r tablau hyn yn rhan o "Crime in England and Wales: year ending March 2017". Mae'r Canllaw Defnyddwyr Ystadegau Troseddu'n cynnwys rhagor o wybodaeth am gyd-destun yr ystadegau hyn.

## Y rhaglen Eco-Sgolion, Cadwch Gymru'n Daclus

Mae'r rhaglen Eco-Sgolion yn cael ei rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus, a ddarparodd ddata ar nifer yr ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen o'r gronfa ddata a ddefnyddir ganddynt i gadw cofnodion. Felly, mae'r data hyn yn seiliedig ar ffynhonnell weinyddol ac nid ydynt yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

Ni allwn roi sicrwydd llawn am ansawdd y data, a bydd y data'n gwbl ddibynnol ar ddiffiniad y Rhaglen o ysgolion sy'n cymryd rhan. Mae gwybodaeth am beth mae bod yn eco-ysgol yn ei olygu a sut mae'r gwahanol wobrau'n cael eu hasesu ar gael ar eu gwefan. Ni ellir cymharu'r ffigurau hyn dros amser gan fod nifer yr ysgolion yng Nghymru'n newid wrth i ysgolion gau ac agor. Gellir tybio y bydd nifer yr ysgolion sy'n rhan o'r Rhaglen yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel cyllid a galluogrwydd ac felly efallai na fydd newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn datgelu dim am lwyddiant neu fethiant y rhaglen.

## Education Development Trust, Adroddiad Blynyddol, 2016-17

Data gweinyddol yw'r rhain wedi'u cyflenwi gan yr Education Development Trust, elusen sy'n gweithio ar lefel y DU ac sy'n rheoli'r Rhaglen Dysgu Byd-eang (Global Learning Programme) ar y cyd â sefydliadau eraill. Ni allwn roi sicrwydd llawn ynglŷn ag ansawdd y data, a bydd y data'n dibynnu'n llwyr ar systemau gweinyddol yr Ymddiriedolaeth a'i datganiadau ar nifer yr ysgolion mae'n gweithio â hwy. Gellid tybio y bydd nifer yr ysgolion sy'n gysylltiedig â'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel cyllido a galluogrwydd ac felly efallai na fydd unrhyw newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn dangos dim am lwyddiant neu fethiant y rhaglen .

## Disgyblion Lleiafrifoedd Ethnig, Llywodraeth Cymru

Mae'r adroddiad Ethnic Minority Pupils: Evidence Review and Practice in Wales yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth a manylion am y ffynonellau a ddefnyddiwyd ar gyfer ei gasgliadau.

### Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, erthygl ar briddoedd a newid yn yr hinsawdd

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop yn asiantaeth o'r Undeb Ewropeaidd sydd â'r dasg o ddarparu gwybodaeth annibynnol ar yr amgylchedd. Gweler y cyfeiriadau yn yr erthygl ar briddoedd a newid yn yr hinsawdd am wybodaeth am ansawdd y data.

### Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yng Nghymru, mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn defnyddio'r Llwybr Clinigol Cymru Gyfan – Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) pan ddaw achos newydd o FGM i'r amlwg, neu os oes amheuaeth, mewn benywod neu enethod o unrhyw oedran. Mae'r data hyn yn cael eu casglu gan bob sefydliad iechyd yng Nghymru gan ddefnyddio'r Dull Casglu Data Iechyd FGM gan gynnwys y rhif GIG i osgoi dyblygu adrodd. Mae data di-enw'n cael eu hanfon at y Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru, bob chwarter i gael eu coladu. Mae'r data'n cael eu hadolygu yng nghyfarfod Arweinyddion FGM Byrddau / Ymddiriedolaethau Iechyd.

Mae'n bwysig nodi os oes claf yn cael ei ganfod wrth i ofal gael ei ddarparu trwy'r GIG nad yw hyn yn golygu ei bod wedi cael dioddef FGM yn ddiweddar na bod y FGM wedi digwydd yn y DU.

### Diogelwch Bwyd yng Nghymru, Adroddiad NatCen ar gyfer yr Asiantaeth Diogelwch Bwyd

Gweler yr Adroddiad Technegol Food and You Survey Wave 4 am ragor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg.

### Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol (HBSC) / Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)

Mae astudiaeth HBSC/SHRN yn arolwg mewn ysgolion sy'n edrych ar ddisgyblion ym mlynyddoedd ysgol 7 i 11. Casglwyd data yn 2017/18 trwy holiadur ar-lein a lenwyd yn yr ystafell ddosbarth.

Cafodd yr arolwg ei gynnal i ddarparu data at gyfer dau angen cysylltiedig: yr astudiaeth ryngwladol Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol sy'n cael ei threfnu gan Sefydliad Iechyd y Byd, a'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion sydd wedi'i leoli yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am y ddau sefydliad ar eu gwefannau eu hunain.

Roedd 207 o ysgolion a gynhelir sy'n gysylltiedig â'r SHRN a sampl o 13 o ysgolion annibynnol yn cymryd rhan mewn casglu data ar gyfer astudiaeth 2017/18. Roedd tair fersiwn o'r holiadur, un yn seiliedig ar HBSC a dwy a oedd yn seiliedig ar gwestiynau HBSC a chwestiynau eraill, ac y cyfeiriwyd atynt fel SHRN1 a SHRN2. Mewn 100 o ysgolion a ddewiswyd ar hap, dyrannwyd holiaduron HBSC ar hap i 60 y cant o'r disgyblion. Cafodd gweddill y disgyblion yn yr ysgolion hyn naill ai SHRN1 neu SHRN2.

Roedd cyfradd ymateb yr ysgolion yn 88 y cant a dyna hefyd oedd y gyfran ymhlith yr ysgolion HBSC (88/100) ac ysgolion nad oedd yn HBSC (105/120). Roedd cyfradd ymateb y disgyblion yn yr ysgolion yn 66 y cant, a oedd yn arwain at gyfradd ymateb gyfun o 58 y cant.

Nid oedd gwerthoedd a gollwyd wedi'u cynnwys. Mae setiau data HBSC wedi'u pwysoli, ond ni ddigwyddodd hynny yn achos setiau data SHRN1, SHRN2 nac ychwaith y setiau data cyfun.

### Disgwyliadau oes cyflwr iechyd, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gweler Health state life expectancies, UK QMI am ragor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

*Health state life expectancies by national deprivation deciles, England and Wales*

Gweler yr adran "Quality and Methodology" o'r adroddiad am ragor o wybodaeth. Mae'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Gwladol.

### Cofnodion Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), 2016/17

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adroddiad ansawdd Cofnodion Myfyrwyr ar wefan HESA. Mae'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

### Perchnogaeth tai a rhenti: demograffeg, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

Gweler yr adran "Measuring housing tenure and demographics" ym mhapur briffio Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi. Nid yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau gwladol.

### Gwastraff bwyd aelwydydd yn y DU, 2015, WRAP

Mae'r canlyniadau'n cael eu cynhyrchu gan adroddiad Synthesis of Food Waste Compositional Data 2014 & 2015 WRAP, sy'n cynnwys adran ar fethodoleg. Mae Atodiad A yn cynnwys trafodaeth bellach ar effeithiau'r fethodoleg ar y ffigurau ar gyfer y cenhedloedd. Nid yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

### How does getting older change the way we feel about our lives?, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Daw data o'r erthygl "Measuring National Well-being: At what age is Personal Well-being the highest?" y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cynnwys rhai nodiadau ar ansawdd yn yr adran "Background notes".

Daw'r data o setiau data Llesiant Personol yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Gweler y Personal well-being in the UK QMI am ragor o wybodaeth am ansawdd y data a methodoleg y data.

### Ystadegau Mewnfudo, Y Swyddfa Gartref

*Ceiswyr lloches sy'n cael cymorth, Cynllun Adran 95 y Swyddfa Gartref*

Daw'r ffigurau hyn o ddata gweinyddol y Swyddfa Gartref, sy'n cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Gwladol. Mae'r cynllun wedi'i anelu at geiswyr lloches sydd â cheisiadau heb eu cwblhau, ceiswyr lloches a'u dibynyddion sydd mewn perygl o fod yn ddiymgeledd. Dylid ei gymryd fel ystadegau dangosol o niferoedd ceiswyr lloches. Nid yw'r cynllun yn cynnwys ffoaduriaid nad ydynt yn ceisio lloches. Gweler y Canllaw Defnyddwyr ar gyfer Ystadegau Ymfudo y Swyddfa Gartref i gael gwybodaeth am ansawdd a methodoleg data'r Swyddfa Gartref.

*Tabl ystadegau mewnfudo yn 16q/20q*

Cyhoeddir y rhain fel Ystadegau Gwladol. Gweler adrannau nodiadau y tablau am wybodaeth ar ansawdd a methodoleg.

### Iechyd babanod, Gwefan OECD

Daw ffigurau marwolaethau babanod OECD o Ystadegau Iechyd OECD 2017. Mae'r bennod ar Iechyd Babanod yn cynnwys peth gwybodaeth am y diffiniadau a chymharedd ar gyfer cyfraddau marwolaethau babanod. Gweler y bennod ar Iechyd Babanod yn yr adroddiad OECD Health Statistics Definitions, Sources and Methods am wybodaeth am yr ansawdd a methodoleg fesul gwlad.

### Ceir trydan, Cerbydau Nwyddau Mawr (LGV) a cherbydau pedair olwyn trwyddedig, Yr Adran Drafnidiaeth

Gweler Vehicles Statistics Guidance am ragor o wybodaeth am yr ansawdd a'r fethodoleg, yn arbennig Vehicle Licensing Statistics: notes and definitions. Mae'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Gwladol.

### LGBT, Stonewall Cymru

Mae Stonewall Cymru yn elusen LGBT. Nid yw'r data hyn wedi'u cyhoeddi fel ystadegau swyddogol ac ni allwn roi sicrwydd am ansawdd y dulliau arolygu a ddefnyddiwyd.

*LHDT yng Nghymru - Troseddau Casineb a Gwahaniaethu*

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar arolwg YouGov, ar ran Stonewall, o 1,272 o bobl LGBT yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran ar fethodoleg yn yr adroddiad LHDT yng Nghymru - Troseddau Casineb a Gwahaniaethu.

*LHDT yng Nghymru - Adroddiad Gwaith*

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar is-set o arolwg YouGov, ar ran Stonewall, o 825 o bobl LGBT cyflogedig yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran ar fethodoleg o'u hadroddiad LHDT yng Nghymru - Gwaith

*Adroddiad Ysgol Cymru (2017)*

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar holiadur ar-lein a gynhaliwyd mewn partneriaeth rhwng Stonewall a'r Centre for Family Research ym Mhrifysgol Caergrawnt. Roedd yr arolwg yn holi 267 o bobl LGBT rhwng 11 a 19 oed. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran fethodoleg yn eu Hadroddiad Ysgol Cymru.

### Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Gweler yr adran "Methodoleg" yn Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2017 am ragor o wybodaeth am yr arolwg. Nid yw'r data yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

### Pwysau Geni Isel: adolygiad o ffactorau risg ac ymyraethau, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gweler yr adran "Dull" Adroddiad cryno Pwysau Geni Isel: adolygiad o ffactorau risg ac ymyraethau, am ragor o wybodaeth. Nid yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

### Millennium Cohort Study (MCS)

Mae'r Millennium Cohort Study yn dilyn sampl o blant yn y DU a anwyd ar ddechrau'r mileniwm. Mae'r dudalen MCS ar wefan y Ganolfan Astudiaethau Hydredol yn cynnwys gwybodaeth am ddyluniad yr arolwg yn ogystal â sawl adroddiad technegol. Nid yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol er bod yr MCS yn astudiaeth hydredol genedlaethol uchel ei pharch.

Bu chwech ychwanegiad at yr astudiaeth hyd yma, gyda'r olaf yn 2015-16 pan oedd y plant tua 14 oed. Y troeon diwethaf i hyn ddigwydd oedd pan oedd y plant tua 9 mis a 3, 5, 7 ac 11 oed.

Yng Nghymru, roedd y sampl gwreiddiol yn cynnwys 2,760 o deuluoedd a oedd yn rhan o'r rhan gyntaf a 1,669 yn y chweched, gan fod nifer cyfranogwyr sydd wedi gadael yr astudiaeth yn 60.5 y cant o'r sampl gwreiddiol. Mae'r sampl wedi'i bwysoli er mwyn i'r canfyddiadau fod mor gynrychioliadol o'r sampl gwreiddiol â phosibl.

Roedd nifer fach o deuluoedd yn cynnwys gefeilliaid neu dripledi. I osgoi cyfrif teuluoedd ddwywaith, dim ond y cyntaf anedig o'r gefeilliaid neu dripledi sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

Gwlad teulu yw'r wlad lle'r oeddent yn byw ar ddechrau'r astudiaeth. Roedd 84 o deuluoedd wedi gadael Cymru ers dechrau'r astudiaeth, ond maent yn dal i gael eu cynnwys ym mhoblogaeth Cymru.

Mae peth data ar goll yn achos cwestiynau penodol. Fodd bynnag, yn y chweched rhan, nid oedd lefelau'r data coll yn fwy na 6 y cant ar gyfer unrhyw gwestiwn, sy'n gyfradd gymharol isel. Nid yw'r canrannau'n cynnwys data coll.

### Modern Slavery and Human Trafficking: National Referral Mechanism Statistics Annual Report 2017, Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol

Mae'r rhain yn ddata gweinyddol sy'n cael eu cynhyrchu gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol sy'n rheoli'r Fecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) i ganfod rhai sydd wedi profi masnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth fodern. Nid yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r darlun o gaethwasiaeth fodern yn y DU. Mae'n cynnwys ffigurau'n ymwneud â nifer y dioddefwyr posibl sydd wedi'u hatgyfeirio at y broses NRM. Mae nifer o ystyriaethau o ran cymharu atgyfeiriadau o flwyddyn i flwyddyn oherwydd newidiadau mewn trefniadau adrodd. Nid yw cynnydd mewn atgyfeiriadau o reidrwydd yn golygu bod mwy o achosion o gaethwasiaeth neu fasnachu mewn pobl.

Roedd newid yn y ffordd y mae data yn cael eu cofnodi yn 2017, ac mae'n debygol mai hyn oedd yn gyfrifol am y cynnydd sydyn mewn atgyfeiriadau.

Gweler gwefan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol am ragor o wybodaeth am y Fecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a sut y gwneir atgyfeiriadau i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

### Rhaglen Monitro Ystlumod Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod

Mae'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol. Mae gwybodaeth am ansawdd, methodoleg a chynllun yr arolwg i'w chael ar ddechrau Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Monitro Ystlumod Genedlaethol.

### Personal well-being in the UK, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gweler QMI Personal well-being in the UK am ragor o wybodaeth am ansawdd data a methodoleg yr arolwg.

### Programme for International Student Assessment (PISA), Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)

Mae'r data hyn yn gyfres ryngwladol o ystadegau. Mae'r Fframwaith Asesu a Dadansoddi 2015 PISA yn cynnwys trosolwg o asesiadau a diffiniadau.

*Achievement of 15-Year-Olds in Wales: PISA 2015 National Report*

Gweler pennod 1 o Cyflawniad Pobl Ifanc 15 oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2015 am wybodaeth am samplo yng Nghymru, ac atodiadau'r adroddiad hwnna am ragor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

*PISA 2015 Results (Volume III): Students' Well-being*

Gweler Annex A: PISA 2015 Technical Background am ragor o wybodaeth am fethodoleg.

**Cyfeiriadedd Rhywiol, Llywodraeth Cymru**

Ystadegau arbrofol yw'r rhain. Mae rhagor o wybodaeth am darddiad yr ystadegau hyn ar gael yn yr adran "Quality and Methodology" Sexual Orientation statistical bulletin Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**Chwaraeon a Ffyrdd Egnïol o Fyw, Chwaraeon Cymru**

Mae'r adolygon Chwaraeon a Ffyrdd Egnïol o Fyw yn awr yn seiliedig ar ddata o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Gweler Adroddiad technegol yr Arolwg Cenedlaethol am ragor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg ac ansawdd y data.

**Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2016, Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol yn cael ei gynhyrchu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dynodi asesiad hyder i bob darn o wybodaeth, sy'n cael ei gofnodi mewn atodiad. Y sgoriau yw Uchel (H), Canolig (M) ac Isel (L). Eglurir y fethodoleg ar gyfer dynodi asesiadau hyder mewn atodiad arall.

Mae rhagor o wybodaeth am y data sy'n sail i'r datganiadau ym Mhennod 3 ar gael yn Atodiad Technegol Pennod 3.

Yr asesiadau hyder ar gyfer y data a ddefnyddir yn yr adroddiad Llesiant yw:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm y carbon mewn pridd | Pennod 3, tudalen 24 | Canolig |
| Cydnerthedd Eco-systemau | Pennod 4, tudalen 23 | Canolig |

**Suicide in England and Wales, 2015 registrations (User Requested Data), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol**

Mae taflen "Notes and Terms and Conditions" y llyfr gwaith data yn cynnwys casgliad o ddolenni at wybodaeth am ansawdd y data. Mae'r daflen wybodaeth "Suicide Definition" yn rhoi gwybodaeth am y diffiniad o hunanladdiad a ddefnyddiwyd.

**Adolygiad 2014 o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn ardaloedd dynodedig sydd wedi'u cynnwys.

**Y Sylfaen Drethu Gymreig: Risgiau a Chyfleoedd ar ôl Datganoli Cyllidol, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Mae'r adroddiad yn dadansoddi'r Arolwg o'r Llafurlu rhwng 2014 a 2017 i ddod i'w gasgliadau ar gymudwyr. Ni cheir rhagor o wybodaeth am y dadansoddiad. Fodd bynnag, mae rhagor o wybodaeth ansawdd ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu ar gael ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn ogystal â Chanllaw Defnyddwyr.

### Ystadegau Trafnidiaeth Prydain Fawr, Yr Adran Drafnidiaeth

Mae gwybodaeth am yr ystadegau trafnidiaeth ar gael ar eu tudalen ganllaw. Daw'r ystadegau ar all-gymudo o'r Arolwg o'r Llafurlu. Mae gwybodaeth ansawdd ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu ar gael ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn ogystal â Chanllaw Defnyddwyr.

### Rhestr Treftadaeth y Byd UNESCO, UNESCO

Nid yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol. Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad yn seiliedig ar nifer y safleoedd sy'n cael statws Treftadaeth y Byd ac mae'r meini prawf a'r broses i ddynodi statws Treftadaeth y Byd i safle i'w gweld ar wefan UNESCO. Hefyd, ceir adran sy'n egluro'r Rhestr o Dreftadaeth y Byd mewn Perygl.

### Vaccine uptake in children in Wales, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae data ar y niferoedd sy'n cael brechiadau yn cael eu darparu gan gynllun COVER Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cynllun adolygu hwn, sy'n cael ei redeg gan Rhaglen Frechu yn Erbyn Clefydau Ataliadwy (VPDP) a Chanolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC) Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrifo'r niferoedd sy'n cael brechiadau gan ddefnyddio data o'r Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol (NCCHD). Mae'r NCCHD yn cael ei gynnal gan Wasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru (NWIS) ac mae'n cynnwys cofnodion wedi'u cymryd o gronfa ddata swyddfa Iechyd Plant pob bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae'r NCCHD yn cael ei ddiweddaru bob chwarter.

Enwadur y cyfrifiadau derbyn brechiadau a ddefnyddir yn yr adroddiad COVER blynyddol yw nifer y plant wedi'u cofrestru â swyddfeydd Iechyd Plant sydd wedi cyrraedd pen blwyddi mesur allweddol yn ystod y flwyddyn Ebrill i Fawrth ac a oedd yn byw ac yn preswylio yn ardal byrddau iechyd Cymru ar ddiwedd y cyfnod hwn. Bernir fod plant wedi'u brechu erbyn oed mesur os oes ganddynt ddyddiad brechu wedi'i gofnodi yn eu cofnod iechyd plant, sydd cyn y pen blwydd perthnasol.

Gall ansawdd y data o fewn y NCCHD ddirywio yn achos plant hŷn sydd â llai o gysylltiad â gweithwyr iechyd proffesiynol, a gall eu cofnodion iechyd plant gael eu diweddaru'n llai aml.

### Wales and the World, Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Mae'r adroddiad Wales and World a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn benodol i dynnu sylw at gysylltiadau rhyngwladol academaidd ac ymchwil Cymru. Daw'r ffigurau yn yr adroddiad o ffynonellau eraill.

Mae'r QS World University Rankings a adwaenir gynt fel y Times Higher Education – QS World Rankings. Nid yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol. Mae gwefan QS yn rhoi trosolwg byr iawn o sut y mae'r sgoriau wedi'u cyfrifo yn eu tudalen fethodoleg.

Daw ystadegau'r Fframwaith Rhagoriaeth mewn Ymchwil (REF) o REF 2014. Mae gwybodaeth am REF i'w gweld ar dudalen gefndir eu gwefan. Mae dogfennau am y fframwaith asesu a gwybodaeth am y dulliau gweithredu ar gyfer cynnal yr asesiadau hynny i'w gweld ar eu tudalen ganllaw.

### Wealth in Great Britain, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gweler y "Wealth Assets QMI" am ragor o wybodaeth am yr arolwg.

### Tueddiadau Arolwg Iechyd Cymru 2003-04 hyd 2015, Llywodraeth Cymru

Gweler adroddiad technegol Arolwg Iechyd Cymru ac arolwg ansawdd Arolwg Iechyd Cymru am ragor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

### Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru, Prifysgol Caerdydd

Daw'r data o Dental Epidemiological Survey of 12 Year Olds 2016-17. Nid yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol. Ceir rhagor o wybodaeth am y fethodoleg yn yr adroddiad Protocol sydd ar gael ar y wefan. Daw'r wybodaeth am y plant 5 oed o'r Picture of Oral Health in 2017: Dental caries in 5 year olds (2015-16) ac mae adroddiad Protocol ar wahân ar gael.

### Ystadegau blynyddol Cyfiawnder Ieuenctid, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae gan yr Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid wybodaeth ansawdd yn yr adran "Things you need to know" a'r atodiadau. Mae'r Guide to Youth Justice Statistics ar wahân yn cynnwys gwybodaeth am y ffynonellau ac ansawdd y data ar gyfer yr holl ddata a ddefnyddir yn yr adroddiad.

**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru**

**Medi 2018**